

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

# Effaith diwygio lles a rhaglenni lles i waith:

adolygiad o'r

dystiolaeth

## Crynodeb gweithredol

Nathan Hudson-Sharp, Naomi Munro-Lott, Heather Rolfe a  
Johnny Runge, Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd  
a Chymdeithasol

# Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad yn archwilio effaith y rhaglenni diwygio lles a lles i waith a gyflwynwyd gan Lywodraeth Clymblaid y Ceidwadwyr/Democratiaid Rhyddfrydol yn 2010-15 a Llywodraeth y Ceidwadwyr a etholwyd ym Mai 2015. Nod penodol o'r adolygiad oedd archwilio'r dystiolaeth ynghylch sut mae grwpiau gwarchodedig, ac is-setiau o'r rhain megis rhieni unigol, wedi eu heffeithio gan y diwygiadau hyn. Nod arall oedd archwilio'r bylchau yn y dystiolaeth ymchwil, o ran diwygiadau penodol, ac yn ôl nodweddion gwarchodedig. Comisiynwyd yr ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn 2017 yn rhan o raglen fesul cam o waith, a oedd hefyd yn cynnwys asesiad effeithiau cronus (CIA) (Portes a Reed, 2018) ac a oedd yn adeiladu ar waith cynharach ar CIA (Reed a Portes, 2014; EHRC, 2012; EHRC, 2015).

Ers 2010, mae system les y Deyrnas Unedig wedi profi newidiadau pellgyrhaeddol ac mae diwygiadau lles helaeth wedi eu cyflwyno. Mae'r rhain yn amrywio o gynllunio polisi lefel uchel, o ran cymhwyster a thaliadau, i gyflawni a gweithredu. Mae hyn wedi cynnwys: disodli chwe budd-dal allweddol gyda Chredyd Cynhwysol (CC); cyflwyno amodau mwy dwys ar y gyfundrefn sancsiynu, ble mae'n ofynnol i hawlwr fodloni amodau penodol neu wynebu colli budd-daliadau; a newidiadau i asesiadau a hawl i fudd-daliadau analluogrwydd a chysylltiedig ag anabledd. Cyflwynwyd y newidiadau i nawdd cymdeithasol a lles i waith yn raddol o Gyllideb argyfwng 2010 ac mae rhai o'r diwygiadau, yn arbennig CC, heb eu cyflwyno'n llawn eto. Felly mae'r cyd-destun yn un sy'n esblygu ac mae effeithiau'r diwygiadau yn dal i ddod i'r amlwg.

## Dulliau

---

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth manwl; dadansoddiad cryno o gyfanswm nifer y derbynwyr a'r buddion yn gysylltiedig â'r diwygiadau, yn cynnwys cyfrannau mewn grwpiau gwarchodedig ble fo'n ymarferol; a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid, y mae rhai ohonynt yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda grwpiau gwarchodedig ac sydd wedi cyflawni eu hasesiadau eu hunain ar effaith y diwygiadau. Rydym wedi archwilio'r dystiolaeth bresennol o effaith ac effaith debygol

newidiadau yn y dyfodol a gynlluniwyd hyd at ddiwedd cyfnod y Llywodraeth Ceidwad presennol yn 2022.

## Prif ganfyddiadau

---

Mae prif ganfyddiadau'r ymchwil yn archwilio ysgogiadau'r diwygiadau, eu gweithrediad a'r gallu i ymateb iddynt. Maent hefyd yn delio â'r effaith ar grwpiau gwarchoddedig.

## Sbardunau diwygiadau

---

Dengys ein hymchwil fod y diwygiadau wedi eu cefnogi gan strategaeth a set o bolisiâu clir wedi eu hanelu at roi cymhelliant i weithio yn hytrach ne diffyg gweithgaredd a lleihau gwariant ar les. Roeddynt hefyd wedi eu hanelu at symleiddio'r system les. Gydag amser, newidiodd ffocws y rhaglen ddiwygio tuag at fwy o ffocws ar gwtogi costau yn agenda cyni Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bwysicaf oll. Tra'i bod yn un o amcanion gwreiddiol y CC i symleiddio'r system a gwella ysgogiadau i waith, erbyn ei gyflwyniad cenedlaethol, roedd wedi datblygu i fod yn fesur i arbed costau.

Roedd nifer o'r effeithiau tebygol ar grwpiau gwarchoddedig wedi eu deall a byddai wedi bod yn bosib disgwyl eraill petai asesiad mwy cyflawn wedi ei gyflawni gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig cyn gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (EIAs) a gyhoeddwyd yn gwneud dim mwy na disgrifio'r gyfran o hawlwyd presennol fesul grŵp gwarchoddedig, yn hytrach na chynnal archwiliad manylach o'r effeithiau ariannol ac anariannol posibl. Byddai wedi bod bosibl rhagweld yr effeithiau hefyd pe byddai yna gydnabyddiaeth fod nifer o unigolion a chartrefi wedi eu heffeithio gan newidiadau i amrywiaeth o fudd-daliadau. Mae rhai grwpiau cydraddoldeb, yn arbennig pobl anabl a menywod (yn arbennig fel rhieni unigol), wedi eu heffeithio fel hyn. Dylai newidiadau yn y dyfodol ymgorffori asesiad effeithiau cronus, fel y cyflawnwyd yn yr astudiaeth ymchwil cysylltiedig gan Portes a Reed (2018).

Mae twf cyflogaeth ar y cyfan wedi bod yn hynod gryf, ac mae hyn yn golygu fod nifer sylweddol o bobl wedi symud o fudd-daliadau i waith. Mewn rhai achosion (er enghraifft, rhieni unigol) mae diwygiadau yn debygol o fod wedi cyfrannu at y canlyniad hwn; mewn eraill, yn arbennig parthed budd-daliadau anabledd ac

analluogrwydd, roedd y symudiad o fudd-daliadau i waith yn llawer llai na'r disgwyl. Mae rhai diwygiadau, er enghraifft i Fudd-dal y Dreth Gyngor, wedi golygu costau atodol i'r system les yn hytrach na lleihau gwariant. Mae ein hadolygiad wedi ffocysu nifer ar os yw'r diwygiadau wedi gweithio, ond ar eu heffaith ar grwpiau gwarchodedig, ac rydym wedi casglu corff mawr o dystiolaeth ynghyd ar os cafwyd effaith anghymesur o andwyol ar rai grwpiau. Canolbwyntiodd yr ymchwil ar y rhai gyda nodweddion gwarchodedig, fe a ddiffiniwyd gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

## Gweithrediad diwygiadau

---

Ar y cyfan, ymddengys fod effaith y diwygiadau yn bennaf o ganlyniad i'w cynllun, ond mae gweithredu wedi bod yn ffactor arwyddocaol mewn rhai diwygiadau. Er enghraifft, mae yna rywfaint o dystiolaeth o ddefnydd gwahaniaethol o sancsiynau. Mae yna hefyd dystiolaeth fod rhai o effeithiau diwygiadau i fudd-daliadau anabledd wedi eu hachosi gan y broses asesu, sydd weithiau'n achosi cymaint o straen fel ei fod wedi effeithio'n andwyol ar iechedd a lles hawlwr. Mae hyn fwyaf amlwg yn y llenyddiaeth ar yr Asesiad Gallu i Weithio (WCA) ar gyfer ymgeiswyr ar gyfer y Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth (ESA). Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu yn cynnwys diffyg dealltwriaeth gan aseswyr o amodau penodol, yn arbennig y rhai sy'n amrywio yn eu symptomau a difrifoldeb, yn cynnwys iechedd meddwl.

Mae yna hefyd dystiolaeth o effaith yn deillio o fodel cyflawni rhai budd-daliadau, yn benodol y newid i daliadau misol sengl mewn CC a thalu trwy un cyfrif enwebedig. Mae'r rhain yn cael effaith anghymesur ar fenywod fel y rhai sy'n rheoli cyllidebau'r aelwyd yn fwyaf cyffredin.

Mae rhai o effeithiau andwyol y diwygiadau wedi deillio o'r anawsterau mae pobl yn trosi o fudd-daliadau etifeddiaeth sy'n dod i ben i rai newydd, ac oedi gyda thaliadau. Mae enghreifftiau'n cynnwys y newid o Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) i'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ac, eto, CC. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddiwygiadau o ran anabledd a gwaith, gydag effaith ESA yn ymwneud yn bennaf â phrofiadau'r WCA, a adroddir i fod yn gwaethygu amodau rhai o'r hawlwr budd-daliadau. Mae'r effaith wedi ei esbonio cymaint gan y broses o weithredu ac y mae gan y newid mewn budd-daliadau ei hun. Mae'r newid i CC hefyd wedi achosi anawsterau ariannol a straen. Mae unrhyw gyfnod gyda lleihad mewn budd-daliadau yn arwain at fwy o ddibyniaeth ar deulu ac elusennau, ac mae dystiolaeth o hyn yn arbennig o gryf

parthed trosiannau budd-daliadau anabledd ac oedi. Mae hefyd yn ganlyniad i sancsiynau.

## Gallu i ymateb i ddiwygiadau

---

Er nad ydym wedi ffocysu ar os cyflawnodd y diwygiadau eu nodau bwriadol, mae yna dystiolaeth amrywiol ar os ydynt wedi hwyluso neu annog symudiad i waith. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod effaith amodoldeb wedi amrywio. Mae rhai grwpiau yn fwy tebygol nag eraill i ganfod gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys: menywod o gymharu i ddynion, a rhieni unigol yn benodol; cyfranogwyr iau o gymharu â rhai hŷn; a rhai heb gyflyrau meddygol ac anableddau o gymharu â'r rhai gyda. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod y Rhaglen Waith wedi ceisio cefnogi trosiannau i waith yn bennaf trwy gyfundrefn o amodoldeb a sancsiynau, a bod bylchau arwyddocaol wedi bodoli yn narpariaeth cefnogaeth bersonol i'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur. Yn benodol, awgryma deilliannau gwael i grwpiau sydd angen y gefnogaeth fwyaf arbenigol (er enghraifft, hawlwyr ESA), yn ogystal â thystiolaeth o ddiffyg cefnogaeth briodol a chyfleoedd a hwylusir gan y Rhaglen Waith, fod angen rhywfaint o ail ystyriaeth arwyddocaol ar gyfer y Rhaglen Iechyd a Gwaith sydd i ddod.

Mae yna dystiolaeth fod amodoldeb cynyddol, a'r cynnydd dilynol mewn sancsiynau, wedi cael nifer o effeithiau andwyol, yn cynnwys cynnydd mewn dyledion a benthyca, amddifadrwydd, digartrefedd cynyddol a defnydd o fanciau bwyd, sydd oll yn cael goblygiadau tu hwnt i iechyd corfforol a meddyliol pobl. Mae rhai unigolion a theuluoedd sydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol gan ddiwygiadau megis y cap budd-daliadau a'r 'treth ystafell wely' yn wynebu rhwystrau i leihau eu costau a newid i gartref llai o faint. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl anabl, menywod beichiog a mamau newydd. Felly ychydig o ddewis sydd gan rai cartrefi ond i 'aros a thalu', gan leihau gwariant ar eitemau allweddol a hepgoradwy. Yn ogystal, mae'r dewis i symud wedi ei gyfyngu gan brinder eiddo llai ar gael mewn rhai ardaloedd.

Mae'r diwygiadau hefyd wedi creu rhai cymelliadau gwrthnysig, er enghraifft, mae CC yn benodol wedi lleihau ysgogiadau i ail enillwyr weithio mwy na nifer fechan o oriau. Mae'n rhy fuan i asesu effaith y CC ar gynnydd mewn gwaith. Fodd bynnag, oherwydd r ysgogiadau gwannach ar gyfer ail enillwyr, sy'n aml yn fenywaidd, mynegwyd pryderon fod gan y diwygiad fodel enillwr cyflog gwrywaidd sy'n lleihau'r cymhelliant i gyfranogiad cyfartal yn y gweithle mewn aelwyd.

## Effaith ar grwpiau gwarchodedig

---

Mae gan rai diwygiadau, er enghraifft y CC, enillwyr a chollwyr, ond mae gan rai gollwyr trwy ddiffiniad, er enghraifft y cap budd-daliadau, 'treth ystafell wely' a sancsiynu. Yn ogystal, tra bydd rhai unigolion a grwpiau yn cael eu heffeithio gan ddim ond un neu ddau o'r diwygiadau, bydd eraill wedi eu heffeithio gan amrywiaeth eang ohonynt, a dim ond asesiad effaith cronol fel y cyflawnwyd gan Jonathan Portes a Howard Reed (2018) yn eu hadroddiad unigol i ni y gellir mesur hyn.

Mae ein hadolygiad yn canfod tystiolaeth fod y diwygiadau wedi effeithio ar incwm, safonau byw a chyfleoedd nifer o grwpiau gwarchodedig. Y grŵp sydd wedi ei effeithio fwyaf yw pobl anabl, wedi ei ysgogi'n bennaf gan ddiwygiadau yn targedu budd-daliadau anabledd yn uniongyrchol. Mae teuluoedd gydag oedolion anabl a phlant anabl wedi wynebu'r golled ariannol fwyaf o ran arian parod o gymharu ag unrhyw fath arall o aelwyd. Yn ogystal, mae'r dystiolaeth yn arddangos y profiad negyddol a llawn straen o ymgeisio am PIP.

Hefyd, mae yna effaith andwyol arbennig o gryf ar rieni unigol a theuluoedd mwy, yn cynnwys eu plant. Mae'r effaith andwyol ar fenywod wedi ei ysgogi'n bennaf gan y ffaith fod menywod yn cynrychioli'r mwyafrif helaeth o rieni unigol ac yn derbyn cyfran fwy o'u hincwm o fudd-daliadau a chredydau treth, ac felly wedi eu heffeithio gan doriadau yn gyffredinol. Yn y cyfamser, mae'r effaith negyddol ar aelwydydd mwy a'u plant wedi ei ysgogi'n bennaf gan y penderfyniad i gyfyngu cymhwyster i gredydau treth a CC i'r ddau blentyn cyntaf, yn ogystal ag effaith negyddol y cap budd-daliadau ar deuluoedd mwy.

Mae yna dystiolaeth mai'r grwpiau hynny a effeithiwyd fwyaf oedd y rhai mwyaf difreintiedig. Mae lleiafrifoedd ethnig wedi eu heffeithio'n anghymesur oherwydd cyfraddau uwch presennol o dlodi ac oherwydd maint y teulu, i rai grwpiau, a lleoliad. Efallai y bydd yr effaith ar rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig i raddau wedi ei esmwytho gan gyfraddau is o hawlio budd-daliadau, ac eto mae tan hawlio ynddo ei hun yn cyfrannu at dlodi. Mae yna hefyd dystiolaeth o driniaeth wahanol o hawlwyd lleiafrifoedd ethnig a fynegir mewn cyfraddau uwch o sancsiynau.

Mae sancsiynau yn enghraifft arall o sut mae'r diwygiadau wedi cael yr effaith mwyaf ar hawlwyd mwy difreintiedig, sy'n llai abl i gael cefnogaeth dros dro gan deulu a ffrindiau ac sydd â phroblemau dibyniaeth a digartrefedd. Mae pobl gyda phroblemau iechyd meddwl wedi mynegi cyfraddau uwch o sancsiynau, gan waethygu eu problemau presennol.

Mae hefyd yn amlwg fod pobl sy'n syrthio i fwy nag un grŵp gwarchoddedig, er enghraifft oed ac anabledd (pobl hŷn a phlant), wedi eu heffeithio'n fwy nag eraill gan y diwygiadau. Mae Portes a Reed (2018) yn canfod fod teuluoedd gydag oedolyn anabl ac o leiaf un plentyn anabl yn profi colledion incwm mawr.

## Bylchau tystiolaeth: grwpiau gwarchoddedig

---

Rydym wedi adolygu corff mawr o lenyddiaeth ar effaith y diwygiadau ac, er ein bod wedi canfod tystiolaeth o rai o'r grwpiau gwarchoddedig a effeithiwyd mewn nifer o ffyrdd, ar gyfer eraill ychydig o dystiolaeth sydd wedi ei gyhoeddi. Mae'r corff o dystiolaeth yn ymwneud ag effeithiau ar bobl anabl a theuluoedd gyda phlant yn rhesymol gryf, er bod bylchau'n bodoli yn y mathau o effeithiau a brofir. Mae grwpiau ble nad oes llawer o dystiolaeth ar gael yn cynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT), sy'n adlewyrchu'r diffyg tystiolaeth yn fwy cyffredinol ar eu bywydau a phrofiadau o wasanaethau. Mae yna ddiffyg tystiolaeth o effaith y diwygiadau ar fenywod beichiog a mamau newydd, ac ar bobl briod a phartneriaid sifil. Mae'r nodwedd warchoddedig o grefydd a chred hefyd heb dderbyn llawer iawn o sylw, er y cydnabyddir y bydd rhai grwpiau wedi eu heffeithio gan ddiwygiadau megis y cap budd-daliadau oherwydd teulu o faint mwy. Felly mae angen mwy o dystiolaeth parthed y grwpiau a phrofiadau canlynol:

- effaith y diwygiadau yn ôl cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, ble nad oes prin ddim tystiolaeth o gwbl
- effaith y diwygiadau i Fudd-dal Tai ar annibyniaeth pobl ifanc
- sut mae pobl ifanc sy'n ceisio mynediad i neu gynnydd yn y farchnad lafur wedi eu heffeithio, yn cynnwys trwy sancsiynau a dibyniaeth ar aelodau o'r teulu
- deilliannau mwy hirdymor ymgeiswyr ESA a ganfyddir i fod yn 'ffit i weithio' ac nad ydynt mewn gwaith nac ar fudd-daliadau
- yr effeithiau ehangach ar fenywod beichiog a mamau newydd tu hwnt i effeithiau budd-daliadau penodol, a sut mae'r grŵp hwn yn ymdopi yn y system les yn ystod y cyfnod allweddol hwn yn eu bywydau
- effeithiau yn ôl crefydd neu gred
- effeithiau yn ôl hil; mae'r dystiolaeth bresennol wedi ei gyfyngu'n bennaf i'r cap budd-daliadau, tai a maint teulu



- y rhesymau dros y cyfraddau is o hawlio ymysg rhai grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig sydd, er yn lleihau effaith rhai diwygiadau, yn gwaethygu'r lefelau o dlodi, anfantais a bregusrwydd
- effaith y diwygiadau ar Sipsiwn a Theithwyr, sy'n grŵp nad oes ymchwil digonol arno
- p'un ai, ac ym mha ffordd, y mae ymfudwyr diweddar o leiafrifoedd ethnig wedi eu heffeithio gan y diwygiadau
- sut y gallai statws priodasol effeithio ar fynediad at fudd-daliadau
- sut mae unigolion ac aelwydydd a allai syrthio o fewn dau grŵp gwarchodedig neu fwy wedi eu heffeithio gan y diwygiadau a sut mae ffurfweddiad penodol croestoriad yn gallu cynyddu effaith.

## Bylchau tystiolaeth: y diwygiadau

---

Rydym yn darparu tystiolaeth fanwl ar effaith y diwygiadau ar grwpiau gwarchodedig penodol ble mae hyn ar gael. Fodd bynnag, mae yna rai bylchau penodol mewn tystiolaeth parthed effaith diwygiadau penodol:

- Ar gyfer nifer o wahaniaethau i fudd-daliadau, yn cynnwys y cap budd-daliadau a Lwfans Tai Lleol, gallai gwerthusiadau pellach fod yn fuddiol i ddarparu asesiad mwy diweddar o effaith y diwygiadau, ac mae yna angen penodol am ymchwil academaidd o ansawdd uchel, yn cynnwys astudiaethau ansoddol trylwyr, er mwyn deall eu heffeithiau ar grwpiau gwarchodedig.
- Mae yna angen penodol i'r Adran Gwaith a Phensiynau ddarparu asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (EIA) wedi diweddarau ar gyfer CC, oherwydd i'r mwyaf diweddar gael ei gyhoeddi yn 2011 ac felly mae'n seiliedig ar dybiaethau sydd wedi dyddio ynghylch lefelau lwfans gwaith, cyfraddau tapro, costau cefnogaeth gofal plant ac ati.
- Mae angen deall sut mae'r diwygiadau yn cael effaith gronol ar unigolion, aelwydydd a grwpiau, fel y cyflawnwyd yn yr astudiaeth gysylltiedig gan Portes a Reed (2018).
- Mae angen mwy o ymchwil ar sut mae'r diwygiadau yn cael gwahanol effeithiau ar grwpiau gwarchodedig penodol yn ôl lleoliad daearyddol, oherwydd y gwahaniaethau mewn llafur a marchnadoedd tai, ymysg ffactorau eraill.
- Nid yw'r effeithiau negyddol, yn cynnwys ar iechyd a lles o oedi mewn asesiadau a chyfnodau heb fudd-daliadau na chefnogaeth, wedi eu deall yn



llawn. Gallai ymchwil ar y trosiant rhwng budd-daliadau helpu nodi ffyrdd i wella'r broses.

- Mae CC yn cynnwys nifer o nodweddion sy'n digalonni cyfranogiad cyfartal gan ail enillwyr (sy'n fenywod yn bennaf), ac mae angen deall effaith hyn yn ymarferol.
- Mae angen mwy o ymchwil i sicrhau gwell dealltwriaeth o effeithiau sancsiynu. Yn benodol, mae yna angen am lawer mwy o dystiolaeth ar effeithiau sancsiynau yn y tymor hirach ar incwm, cynaliadwyedd gwaith a'r amrywiaeth o gyrchfannau gadael budd-daliadau, yn ogystal ag ar yr effaith wahaniaethol ar hawlwr yn ôl oed, anabledd, rhywedd a hil.

## Bylchau tystiolaeth: mathau o effaith

---

Rydym wedi darparu tystiolaeth o rai ffyrdd ble mae diwygiadau wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol grwpiau gwarchoddedig. Mae ymchwil wedi ffocysu ar oblygiadau ariannol y diwygiadau hyn, yn arbennig y lleihad mewn incwm (y prif effaith) mae unigolion, teuluoedd a grwpiau cydraddoldeb yn profi. Mae hyn wedi arwain at leihad mewn gwariant ar hanfodion, yn cynnwys bwyd a gwres, yn ogystal ag eitemau hepgoradwy. Mae yna dystiolaeth gref fod toriadau mewn lles ac oedi gyda thaliadau yn gyfrifol am ddefnydd cynyddol o fanciau bwyd.

Mae yna lai o dystiolaeth o'r ffyrdd eraill ble mae gostyngiad mewn incwm yn effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth o effaith ar fywyd teuluol; er enghraifft, mewn rhai achosion, mae'r dreth ystafell wely wedi arwain at golli lle preifat ar gyfer plant ar gyfer gweithgareddau fel gwaith cartref, gyda goblygiadau ar gyfer eu haddysg yn ogystal â'u lles. Mae yna dystiolaeth o effeithiau ar iechyd; er enghraifft, ble mae derbynyddion yn hŷn neu'n dioddef afiechyd. Mae ymchwil wedi canfod effeithiau penodol ar iechyd meddwl ar gyfer pobl wedi eu heffeithio gan newidiadau i fudd-daliadau anabledd.

Cafwyd amrywiaeth cenedlaethol a rhanbarthol mewn effaith hefyd. Mae Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi lleihau effeithiau ar eu dinasyddion mewn sawl ffordd, yn cynnwys bodloni'r diffyg mewn taliadau Budd-dal y Dreth Gyngor a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i ddileu effaith y 'dreth ystafell wely'. Ar yr un pryd, mae rhai effeithiau wedi eu teimlo fwy yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr nag unman arall, yn arbennig y rhai yn ymwneud â chostau tai. Mae'r effeithiau hyn yn awgrymu'n gryf beth yw pwysigrwydd ffactorau strwythurol.

Nododd ein cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid nifer o effeithiau sydd wedi derbyn ychydig iawn o sylw yn y llenyddiaeth a gyhoeddwyd, ond yr oeddynt yn ymwybodol ohonynt trwy gyswllt agos gyda grwpiau gwarchoddedig. Mae'r effeithiau hyn yn cynnwys effeithiau byw ar gyllideb is ar gyfer pobl mewn amrywiaeth o fathau o deuluoedd ac amgylchiadau. Roedd rhanddeiliaid yn canfod fod toriadau mewn cefnogaeth i'r wladwriaeth wedi lleihau lefelau annibyniaeth ymysg pobl anabl a chynyddu ei dibyniaeth ar deuluoedd ac elusennau.

Yn ogystal, adroddodd rhanddeiliaid fod incwm isel yn cynyddu defnydd o fenthyciadau gan deuluoedd ac, o ganlyniad, yn arwain at broblemau dyledion, straen a phwysau ar berthnasau. Adroddwyd fod diwygiadau tai, wrth annog ail-leoli oddi wrth deulu gyda rhwydweithiau cefnogaeth, hefyd yn cael effaith ar iechyd a lles y rhai a effeithiwyd.

Yn olaf, nododd rhanddeiliaid symudiad i waith gyda chyflog isel ac ansicr, gydag oriau amrywiol, fel canlyniad pellach i ddiwygiadau, ac eto nid yw hyn wedi ei archwilio mewn unrhyw fanylder mewn ymchwil ar effeithiau. Mae'n bwysig deall deinameg symudiad i ac o waith, a'r rhwystrai strwythurol i leihau dibyniaeth ar fudd-daliadau'r wladwriaeth. Mae'r rhain yn amlwg yn amrywio yn ôl ardal, ac felly mae potensial i gyflwyno amrywiad pellach mewn sut mae grwpiau gwarchoddedig wedi eu heffeithio gan ddiwygiadau lles.

Felly, rydym yn casglu y dylai'r ymchwil yn y dyfodol ar fathau o effaith anelu i lenwi bylchau mewn data, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- effaith y diwygiadau ar fywydau dyddiol unigolion ac aelwydydd ble mae yna ddiffyg ymchwil trylwyr a chadarn
- effaith y diwygiadau ar benderfyniadau ynghylch ble i fyw a goblygiadau i bobl sy'n ail-leoli o ganlyniad i newidiadau gyda Budd-dal Tai a'r 'dreth ystafell wely'
- profiadau pobl mewn grwpiau gwarchoddedig, er enghraifft, rhieni unigol, sy'n symud i waith ansicr o ganlyniad i newid mewn budd-daliadau
- rhwystrau strwythurol mewn marchnadoedd llafur a thai sy'n ei gwneud yn anodd i bobl mewn grwpiau gwarchoddedig i weithredu er mwyn lleihau effaith diwygiadau lles. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, rhwystrau i bobl hŷn neu bobl anabl wrth ail-leoli, trosi i waith neu gynyddu oriau mewn gwaith mewn ymateb i ddiwygiadau lles.

## Casgliadau: dyfodol diwygio lles

---

Mae nifer o'r diwygiadau heb eu gweithredu eto neu heb gael teimlo eu heffaith yn llawn hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys: cyflwyniad Credyd Cynhwysol; y terfyn dau blentyn ar fudd-daliadau plant; ac amodoldeb mewn gwaith yn y CC. Mynegodd rhanddeiliaid arbenigol y farn y gallai diwygio pellach fod wedi ei gyfyngu gan yr amser ac adnoddau a neilltuwyd ar gyfer Brexit. Ymysg ffactorau eraill arafu cyflymder diwygio oedd newid mewn agweddau cyhoeddus tuag at ddiwygio lles a gwrthwynebiad i gynydd. Yn ogystal, fel y gwelwyd yn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, mae rhai cymunedau yn teimlo eu bod wedi eu hanghofio a heb gefnogaeth.

Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn ystyried fod trychineb Tŵr Grenfell yn atgyfnerthu'r syniad fod gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys nawdd cymdeithasol, yn esgeuluso cymunedau. Mae yna farn fod yr hinsawdd bresennol yn cyflwyno cyfle i adolygu'r agendau diwygio lles.

Mae ein hadolygiad yn darparu rhywfaint o ganllaw ar sut y gellid lleihau effeithiau negyddol diwygiadau i les a lles i waith. Yn bennaf, byddai hyn yn golygu dim mwy na gwyrddio rhai mesurau sydd wedi cael yr effaith mwyaf ar safonau byw a lles grwpiau gwarchoddedig. Dylai blaenoriaethau ar gyfer gweithredu o'r fath gynnwys y rhewi budd-daliadau a Thaliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP). Dylai Credyd Cynhwysol hefyd fynd yn ôl i'w gynllun bwriadol gwreiddiol o symleiddio'r system fudd-daliadau, alinio budd-daliadau di-waith ac mewn gwaith, a'i gwneud yn haws i drosi i gyflogaeth.

Roedd nifer o'r effeithiau tebygol ar grwpiau gwarchoddedig wedi eu deall a byddai wedi bod yn bosib disgwyl eraill petai asesiad mwy cyflawn wedi ei gyflawni cyn gweithredu. Roedd y rhan fwyaf o'r EIAs a gyhoeddwyd yn gwneud dim mwy na disgrifio'r gyfran o hawlwr presennol fesul grŵp gwarchoddedig, yn hytrach na chynnal archwiliad manylach o'r effeithiau ariannol ac anariannol posibl. Mae rhai grwpiau gwarchoddedig, yn arbennig pobl anabl a menywod – yn arbennig fel rhieni unigol – wedi eu heffeithio gan newidiadau i amrywiaeth o fudd-daliadau. Dylai diwygio lles yn y dyfodol ymgorffori asesiad effeithiau cronus, fel y cyflawnwyd yn yr astudiaeth ymchwil cysylltiedig gan Portes a Reed.

Ar wahân i ailgynllunio rhai budd-daliadau a therfynu'r mesurau mwyaf niweidiol, gallai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ailystyried diwygiadau lles o ganlyniad i dystiolaeth ynghylch effaith anghymesur y diwygiadau ar rai grwpiau gwarchoddedig. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth ddifrifoli: sut y gall polisïau lles a lles i waith gefnogi

cyfranogiad cyfartal menywod a rhieni unigol yn weithredol; sut i Sicrhau bod pobl anabl sy'n gallu gweithio yn cael y gefnogaeth maent ei hangen; a sut i Sicrhau bod pobl anabl a'u teuluoedd wedi eu cefnogi'n ariannol yn ddigonol pan nad ydynt yn gallu gweithio.

Mae newid mewn cyfeiriad polisi yn gofyn am ddefnyddio tystiolaeth i adolygu sut y gellir cefnogi pobl i waith mewn ffyrdd nad ydynt yn cynnwys toriadau i fudd-daliadau, a'u heffeithiau. Mae'n galw am adolygu'r theori o newid tu ôl i'r diwygiadau - fod diffyg gweithgaredd economaidd yn ddewis ffordd o fyw ac y bydd cwtogi ar gefnogaeth yn hwyluso symudiad i waith. Mae hefyd yn gofyn am gydnabod fod angen gwell dealltwriaeth o rwystrau strwythurol, ac nid dim ond unigol, i waith a'i daclo. Yn fwy cyffredinol, mae yna achos dros edrych eto ar les yn fwy positif, fel rhywbeth y mae pob rhan o gymdeithas angen ar ryw adeg yn eu bywyd. Ar yr un pryd, gellid ei ystyried i fod yn fodd i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ac i gyflawni safon byw dderbyniol.

# Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael ar wefan y Comisiwn: [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com).

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com). Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

## Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael fel ffeil Microsoft Word o [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com). Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com).

## EASS

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chefnogaeth Cydraddoldeb, gwasanaeth am ddim ac annibynnol.

Gwefan	<a href="http://www.equalityadvisoryservice.com">www.equalityadvisoryservice.com</a>
Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau	09:00 tan 19:00 (Llun i Wener) 10:00 tan 14:00 (Sadwrn)
Post	FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mawrth 2018

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn oddi ar

[www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com)

© 2018 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
Cyhoeddwyd: Mawrth 2018